Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 52** **Haf 2020**



Osian James, Taigwynion, wrth ei waith
yn Uned Gofal Dwys Ysbyty Brenhinol Gwent
yn ystod pandemig COVID-19

# Cofid – beth arall?

Nid yw dyfodiad Cofid-19 yn caniatáu cyfarchiad sy’n llawn o ysgafnder a goleuni. Daeth her bygythiol i’n cyfarfod a’n byd. Er bod y rhwystrau sydd ar ein llwybrau’n fawr, ni ddylem anghofio am foment bod ‘pob awdurdod yn y nef a’r ddaear’ yn nwylo Iesu Grist. Peidiwn ag ofni. Peidiwn â digalonni. Yn Iesu Grist nid yw ein gwendid yn ddim ond drws i obaith newydd drwy’r Ysbryd Glân.

## Diolch

Cyn mynd ymhellach, mae’n briodol ein bod yn defnyddio ‘Gair o’r Garn’ i fynegi ein gwerthfawrogiad i’r rhai sydd wedi gweithio’n galed yn ystod y misoedd diwethaf i’n diogelu rhag yr aflwydd ofnadwy hwn. Beth bynnag a ddaw yn sgil ymwelwyr fydd yn heidio i’n broydd, a Cheredigion ynysig yn cael ei chysylltu ag ardaloedd mwy poblog, yr ydym yn diolch i swyddogion yn Sir Ceredigion am yr ymdrechion a wnaed ar ein rhan. Mynegodd nifer o bobl eu gwerthfawrogiad o’r Gwasanaeth Iechyd wrth gymeradwyo’n gyhoeddus. Sylweddolwyd hefyd yn fuan bod y bobl oedd yn cyflawni’r swyddi mwyaf ‘dinod’ yng ngolwg y byd hefyd yn hanfodol i ddiogelwch cymdeithas wâr.

Yr ydym yn ddiolchgar i S4C a Radio Cymru am yr oedfaon sydd wedi eu darlledu ac sydd wedi bod yn gyfrwng i annog pobl oedd heb fynediad i’r dechnoleg yr ydym bellach yn dibynnu arni.

## Dyfalu

Mae’n rhy gynnar o lawer i geisio mesur beth fydd effeithiau parhaol Cofid-19 arnom. Dysgodd llawer fod modd ‘gweithio gartref’ drwy’r dechnoleg ddiweddaraf. Lleihawyd llygredd yn yr awyr a’r byd wrth i bobl deithio llai. A manteisiodd nifer ohonom ar gyfleoedd i ddarganfod a gwerthfawrogi beth oedd ar drothwy ein drws.

Dydy hi ddim yn glir chwaith sut byddwn yn byw gyda’r aflwydd. Mae pryder amlwg am ddyfodol nifer o swyddi, busnesau, sefydliadau fel prifysgolion a’r celfyddydau wrth i’r economi ddioddef. Ac wrth gwrs mae pryder am effeithiau hirdymor cyfnod clo y Cofid ar addysg ein plant a’n hwyrion.

A beth fydd dyfodol ein capeli? Clywyd sawl un mewn gwahanol rannau o Gymru'n darogan na fydd nifer o gapeli'n ailagor wedi hyn. 'Bydd pobl wedi'r colli arfer,' medden 'nhw'.

Clywyd rhai gweinidogion hŷn, medden 'nhw', sydd eisoes wedi dweud na fyddant yn teithio mwyach i gadw'u cyhoeddiad. Ac mae dyfodiad y Cofid yn ddi-os wedi dadlennu i ni pa mor oedrannus a pha mor fregus mewn gwirionedd yw ein heglwysi a'n capeli mwyach.

Dros nos cawsom gipolwg ar ein dyfodol a chawsom ein dychryn. Mae'r cyfan fel pe bai mewn gogrwn mawr a'r hyn fydd yn arhosol yn ansicr.

Mae'n debyg y bydd pob un ohonom yn teimlo'n wan ac yn rhwystredig na allwn wneud fawr ddim fydd yn effeithio'n amlwg ar ein hamgylchiadau.

Ond heb fod yn arallfydol wamal, fe gredwn ni fel Cristnogion, yn yr Arglwydd Iesu Grist, fod Un sy'n medru cynnal a newid ein hamgylchiadau. Y mae 'tragwyddol graig yr oesoedd' yn 'fan na sigla byth'.

Rwyf am osod her i bob un ohonom.

Heno, a phob dydd arall, cyn noswylio, beth am ymdawelu a mynd am dro yn ein dychymyg a meddwl am y bobl sy'n byw yn yr un stryd â ni, mewn ffermydd cyfagos, yn ein hardaloedd (fe gewch chi ddewis hyd y daith!). Ac wrth i ni fynd ar ein 'taith', gadewch i ni weddïo geiriau tebyg i hyn:

> Arglwydd, diolch i ti am ein cynnal eto hyd y foment hon.
> Ar dy drugareddau yr ydym ninnau'n byw hyd yn awr.
>
> Arglwydd, bydd yn dyner a charedig wrthym. Bendithia'n bro.
> (Meddyliwch am y bobl sy'n byw yn y tai cyfagos, y plant,
> yr oedrannus, yr anghenus.) Bendithia ... Bendithia'r cartrefi,
> yr ysgol, ein teuluoedd, ein plant, ein hwyrion.
>
> Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys. Cysgoda drosom eto
> a thyrd i'n hadfywio ymhob cylch o fywyd.
>
> Yn Iesu Grist, Amen.

*Watcyn James*

## Darparu ar gyfer Pawb

Mae rhywbeth yma i bawb o holl aelodau'r Ofalaeth.

Ers dyddiau cynharaf y Cofid 19 yr ydym fel Gofalaeth wedi ceisio ymateb i anghenion ein haelodau ein hunain ac y mae llawer o bobl ar draws Cymru hefyd wedi mynegi eu gwerthfawrogiad. Gall unrhyw un ymuno. Nid yw'n gyfyngedig dim ond i'n haelodau. Beth am ofyn i rywrai sydd efallai wedi ymbellhau, neu sy'n methu dod i'r capel, droi i mewn?

Cofiwch edrych ar ein gwefan a chofiwch gofrestru, os nad ydych yn derbyn y gwahoddiadau ar hyn o bryd, drwy gysylltu â gweinidog@capelygarn.org.

Cofiwch danysgrifio i gyfrif trydar @capelygarn: <https://twitter.com/capelygarn> neu ewch i'r dudalen Facebook: <https://www.facebook.com/pages/category/Religious-Organization/Capel-y-Garn-102624084716586/> er mwyn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae modd i bob un ohonom ymuno yn y gwasanaeth ar Zoom ar fore Sul am 9.30 o'r gloch. Er mwyn diogelwch pob un, caiff gwahoddiad ei anfon allan bob wythnos. Dim ond gwasgu'r ddolen sy'n cael ei hanfon atoch sydd raid. Os cewch chi drafferth o unrhyw fath, fe allwch gysylltu ac fe wnawn eich cynorthwyo gymaint ag y medrwn. Mae'n para tua 45 munud.

Ac fe allwch hefyd ymuno gyda ni drwy alwad ffôn sy'n rhad ac am ddim i chi. Dim ond deialu rhif sydd ei angen a gadael i ni wybod eich bod yn bwriadu ymuno gyda ni.  Mae'r cyfan yn broses ddidrafferth.

Caiff copi o'r gwasanaeth y gellir ei brintio ei osod ar ein gwefan. Os gwyddoch am unrhyw un a hoffai gopi beth am argraffu copi eich hun a'i roi iddynt? Meddyliwch am y gymwynas fyddai hynny!

Os na allwch ymuno ar fore Sul, mae fideo y gellir ei weld ar dudalen Facebook neu ar gyfrif Youtube Capel y garn. https://www.youtube.com/channel/UCR0La0attXycYB0gvzfKqLw

Os mai gwrando yw eich diléit, gallwch hefyd wrando heb y fideo ar wefan Soundcloud. Ewch i https://soundcloud.com/watcyn-a-lowri-james.

A phob bore Mercher, am 11.00 fel arfer, byddwn yn cyfarfod trwy Zoom am Glonc a Phaned. Mae'n bleser ac yn fwyniant pur cael clywed lleisiau gwahanol a mwynhau eu cyfraniadau.

Mae gwahoddiad i chi – os ydych yn aelod neu beidio, yn 'grefyddol' neu beidio. Ond mae'n rhaid i chi 'RSVPio' er mwyn gadael i ni wybod!

Peidiwch ag oedi. Ymunwch heddiw.

**Darparu i blant yr Ysgol Sul**

Bob bore Sul am 10.30 fe fyddwn yn cynnal 'ysgol Sul' trwy raglen Zoom efo storïau a fideo, gemau a gweithgarwch i addysgu ac i annog y rhai hynny sydd ymhlith y gynulleidfa ifancach. Os oes plant neu wyrion gennych a hoffai ymuno gyda'r criw, gadewch i ni wybod, ac fe gewch eich ychwanegu at restr ein capeli.

Fe fyddai'n hyfryd meddwl y gallai ein hysgolion Sul fod yn gryfach wedi'r cyfnod hwn nag yr oeddynt cyn hyn.

Fe allwch chi helpu drwy ddosbarthu'r wybodaeth a gwahodd a gweddïo dros ddiogelwch ein plant.

**Y Dyfodol**

Mae'n naturiol, wrth i'r cyfyngiadau teithio ac i'r siopau ac ysgolion agor, ein bod yn dechrau meddwl o ddifri am agor ein capeli hefyd.

- Yn Lloegr caniatawyd i eglwysi a chapeli agor i wasanaethau arferol (gyda rhai cyfyngiadau).

- Derbyniwyd neges gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu agor adeiladau (gydag amodau a chanllawiau manwl) yng Nghymru ar gyfer 'gweddi bersonol'. Nid ydym erioed fel Anghydffurfwyr wedi meddwl mai rhywbeth sy'n gysylltiedig â lle penodol, yn unig, neu yn bennaf, yw ein gweddïo. Credwn fod Iesu Grist yn ein gwahodd i'w geisio yn ein cartrefi ac yn ein calonnau. Nid yw'r cyfarwyddyd diweddaraf felly'n berthnasol i ni ar hyn o bryd.

- Ni fyddwn mewn modd i ystyried agor ein capeli cyn y daw'r caniatâd i wneud hynny'n ddiogel gan Lywodraeth Cymru a chyn y cawn gyfarwyddyd pellach gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynghylch y ffordd orau o weithredu'r canllawiau diogelwch.

- Cyn agor unrhyw adeilad, fe fydd rhaid i ni osod rhai canllawiau yn eu lle er mwyn sicrhau diogelwch i bob un fydd yn cyfarfod. Mae EBC eisoes wedi awgrymu na ddylem ruthro i agor pob un o'n hadeiladau'n syth ac y dylem ganolbwyntio ar ddiogelu un neu ddwy o ganolfannau mewn gofalaeth yn y lle cyntaf.

- Felly, gan ystyried hyn oll i gyd, hyd nes y cawn ni gyfarwyddyd manwl i'n galluogi i agor yn ddiogel, bydd angen i ni barhau i fod yn amyneddgar.

- A chofiwch – does dim rhaid cadw'n ddieithr: mae yna ddigwyddiadau'n cael eu cynnal y gall pob un ymuno â hwy.

Yn y cyfamser, mae'n bwysig ein bod bob un yn sicrhau ein bod yn dilyn y canllawiau diogelwch gyda manylder, ac yn gofalu am ein gilydd. Cofiwch gadw mewn cysylltiad.

*Watcyn James*



## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Marian Rees, Tal-y-llyn, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod brynhawn Mawrth, 10 Mawrth, a chafwyd ganddi hanes John Davies, Cenhadwr Môr y De. Gan fod Marian yn hanu o Lanbryn-mair, bu ganddi ddiddordeb yn hanes John Davies gan ei fod yntau hefyd yn hanu o sir Drefaldwyn. Clywsom fel y bu i Marian ail-fyw'r profiad o fynd i Tahiti rai blynyddoedd yn ôl i chwilio am fedd y cenhadwr.

Cafodd John Davies ei eni yn 1772 ar fferm Pendugwm, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, ac ar ôl iddo gael ychydig o addysg sefydlodd ysgol ei hunan yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Tra oedd yn mynychu'r capel Methodistaidd lleol, clywodd yr alwad am athrawon a chenhadon i weithio ar ynys Tahiti ac ar ôl iddo wirfoddoli, cafodd ei dderbyn i fynd yno.

Felly, ar 5 Mai 1800, cychwynnodd ef a'i wraig ar y fordaith i Tahiti, ac yno y bu am y 55 mlynedd nesaf. Bu'n arolygydd ar ysgol yn Papara, gan annog sefydlu ysgolion cenhadol yn Fiji hefyd. Dysgodd iaith y brodorion, a chyhoeddodd eiriadur a gramadeg yn iaith Tahiti, yn ogystal â nifer o weithiau eraill yn yr iaith honno. Er ei fod yn ddall am y deng mlynedd olaf o'i oes, parhaodd â'i waith, a bu farw ar 19 Awst 1855 a'i gladdu yn Tahiti.

Diolchwyd yn gynnes i Marian am hanes diddorol iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jones.

Yn anffodus bu'n rhaid canslo cyfarfod olaf y Gymdeithas am eleni, sef te prynhawn ym Mhlas Dolguog ar 14 Ebrill.

*Carys Briddon*


**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615gw
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Y Clo Mawr ym Mynydd Gorddu

Mae'r Clo Mawr gyda thri o blant (3, 6 a 8 oed) wedi bod yn amser pryderus, hwyliog a blinedig iawn ar yr un pryd.  Wrth gwrs, rydym yn ddiolchgar nad yw'r feirws wedi ein heffeithio ni fel teulu yn uniongyrchol, a gan fod ein plant yn ddigon ifanc, gwell yw eu gwarchod rhag gwaethaf y cylch newyddion ar hyn o bryd. Diolch byth am y tywydd braf yr ydym wedi ei gael gan fod y plant wrth eu boddau yn yr awyr agored. Maent wedi bod wrthi'n plannu a chwynnu, dysgu enwau'r adar mân, a siglo ar y swing olwyn nes bod y gwair oddi tani'n frown. Anodd yw eu denu i mewn i'r 'Ysgol Adre' ar adegau (fasech chi byth yn dweud mai athrawes ydw i mewn bywyd arall!) ac maent yn 'LLWGU!' bob awr o'r dydd … ond mae digon o goginio, chwarae a darllen yn mynd ymlaen. Rhaid derbyn bod tŷ taclus ac oergell lawn yn perthyn i'r gorffennol!

Mae wedi bod yn hwyl ymuno gyda'r ysgol Sul rithiol bob bore dydd Sul, diolch i'r Gweinidog am baratoi stori fach ryngweithiol a gweithgareddau difyr sy'n dal sylw'r plantos. Mae plant yn aml yn gallu bod yn swil o flaen FaceTime neu Zoom, neu'n colli diddordeb yn hawdd. Un ffordd o gadw cysylltiad sy'n gweithio'n dda yn ein teulu ni ydy bod y plant yn darllen i Nain (neu mae Nain yn darllen stori i'r ieuengaf) dros FaceTime cyn amser gwely. Mae'n rhoi pwrpas i'r sgwrs, yn cynnal perthynas gydag anwyliaid ac yn rhoi pum munud o lonydd i Mam neu Dad – pawb ar eu hennill felly!

Ar ddiwrnodau gwlyb, rydym wedi gorfod bod ychydig yn fwy creadigol wrth ddiddanu'r plant a'u cadw i ffwrdd o'r sgriniau. Os ydy'r cynhwysion gyda chi yn y tŷ, beth am fynd ati i greu gyda rhai o'r gweithgareddau isod?

**Toes Cwmwl**

1 cwpan o *conditioner* gwallt rhad (neu *baby lotion*)
2 gwpan o flawd corn (*cornflour*)
Ychydig ddiferion o liw coginio

Cymysgwch y cyfan mewn powlen, yna ei dylino nes bod gennych does llyfn. Mae'n arogli'n hyfryd a dylai gadw hyd at wythnos mewn bag plastig neu flwch caeedig.

**Lamp Lafa Cartre**

- Hanner llenwch wydryn mawr gyda olew llysiau
- Ychwanegwch chwarter cwpan o ddŵr a 20 dropyn o liw coginio
- Gollyngwch dabled Alka Seltzer (mae finegr a soda pobi hefyd yn gweithio) i mewn a gwyliwch y lafa yn ffrwtian!




*Llun: Victoria Morris*

**Neidr Garegog**

Beth am beintio carreg a'i hychwanegu at neidr garegog eich parc lleol – ffordd braf o ddod â chymuned o bob oed ynghyd pan na allwn ddod at ein gilydd. Os nad oes neidr yn eich parc neu lwybr cyfagos, beth am addurno pen a dechrau un eich hun? Cofiwch ychwanegu côt o *varnish* i'w arbed rhag y glaw. Rhowch y si ar led a gall y neidr ddim ond tyfu a thyfu.

*Elen Roberts*
mynyddgorddu@gmail.com

## Y Clo Mawr – profiad tair cenhedlaeth

‘Welwn ni chi ’to cyn hir’ oedd ein cyfarchion wrth gwtsio Osian ac Erwain, Rhun a Gwern yng Nghaerdydd ym mis Mawrth. Ychydig a wyddem ein bod ar drothwy’r clo mawr.

O fewn gorchymyn generig y cloi, roedd amrywiaeth yn anorfod. Dros nos cafwyd dosbarthu digon clinigol – yn weithwyr allweddol, yn bobl fregus, yn rhai roedd disgwyl iddynt ddarganfod dulliau newydd o weithredu, a’r sawl roedd yn rhaid iddynt hunanynysu’n llwyr.

Dyma batrwm bywyd tair cenhedlaeth o’n teulu ni yn ystod y cyfnod dyrys hwn.

Fel pob teulu arall, y man cychwyn yw sicrhau argaeledd yr hanfodion – bwyd, meddyginiaethau a llwybrau cyfathrebu amrywiol. Yn ddi-os, mae technoleg wedi bod yn fendithiol flaenllaw yn y cyswllt hwn. O ran gwaith a hamdden mae Teams, Skype a Zoom wedi bod yn gwbl allweddol, yn gyfrwng sy’n ein galluogi i gadw’r cyswllt agosaf posibl gyda theulu, cyfeillion a chyd-weithwyr, yn ogystal â chynnig y profiad rhyfedd o gadw trefn ar ambell bwyllgor fel y Gymdeithas Cerdd Dant ar-lein!



Yn Nhaigwynion, yn ôl y disgwyl, derbyniodd Gwenda lythyr yn ei hadnabod fel person bregus. Gan fod Erddyn a Gwenda ill dau yn eu 80au, mae’n amlwg nad ydynt, fel nifer o aelodau’r Garn, i adael eu cartre – felly hunanynysu yn Lluarth amdani! Yn nodweddiadol ddigon, mae’r ddau wedi bod yn brysur yn dilyn eu diddordebau: Erddyn yn bwrw iddi i wneud ychydig o arddio pan fydd hi’n hindda, a Gwenda yn troi at waith llaw, ac yn gwbl amserol yn rhoi cynnig ar wnïo mygydau. Maent yn werthfawrogol eu bod yn derbyn eu siopa a chyfarchion cyson drwy ffôn a ffenestr gan deulu, cymdogion da a ffrindiau.

Mae'r brifysgol wedi cau, felly gweithio gartre mae Penri, yn marcio ac yn paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, lle mae posibilrwydd cryf o lai o gyswllt wyneb-yn-wyneb gyda myfyrwyr. Mae angen ailddiffinio beth yw ystyr darlith a phenderfynu a yw'n bosibl cyflawni'r holl ofynion academaidd yn ddigidol.

Fel athrawon, mae fy mhrofiad i a Rhun yn debyg iawn. Er bod gwahaniaethau rhwng yr union fodd mae awdurdodau Sir yn gweithredu, rwyf i a Rhun yn gweithio ar-lein – yn paratoi gwersi, yn cyfathrebu gyda disgyblion, yn marcio ac yn cynnig adborth ar eu gwaith. Mae hwn yn broses diddorol, llawn posibiliadau. Fodd bynnag, mae Rhun yn teimlo'n rhwystredig nad yw'n gallu helpu pob plentyn. Mae sicrhau cyfle cyfartal yn amhosibl o ran adnoddau ac o ran y gefnogaeth yn y cartrefi. Y plant mwyaf bregus sy'n dioddef. Y mae Rhun a finnau felly yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r gweithle pan fydd yn ddiogel ac yn gyfrifol i wneud hynny. Yn y cyfamser, mae'r ddau ohonom wedi bod ar rota, yn mynd i'r ysgol er mwyn edrych ar ôl plant gweithwyr allweddol a phlant bregus. Gwn fod Rhun yn ysu am y rhyddid i grwydro, yn enwedig gan ei fod ef a'i gariad, Vicky, wedi gorfod rhoi'r gorau i'r bwriad o deithio i Dde America yn yr haf.

Mae rygbi, sef maes Gwern, ar stop ar hyn o bryd. Gan nad oes gemau, nid oes gwaith dadansoddi perfformiadau uniongyrchol i'w gwneud ar gyfer Undeb Rygbi Cymru na'r Dreigiau. Felly, mae Gwern, fel nifer helaeth o'i gyd-weithwyr, ar gyfnod o seibiant (furlough). Fodd bynnag, mae llawer o weithgareddau ac o ymwneud cymdeithasol yn digwydd drwy Zoom – cwisiau, sesiynau coginio a ffitrwydd er mwyn cadw morâl staff yn uchel, ac er mwyn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gydberthyn fel tîm. At hyn, mae Zoom yn gyfrwng i Gwern ddatblygu ei sgiliau ieithyddol, gan fod ei gariad, Rhianedd, yn ymdrechu i roi gwersi Ffrangeg ac Eidaleg iddo yn gyson ar-lein!

Heb os, Osian sydd yn cael y profiadau mwyaf dirdynnol ar y rheng flaen yn gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd – ardal sydd wedi cael nifer fawr o achosion COVID-19, yn gynnar ddechrau Mawrth, gyda phrinder mawr o gyfleusterau gofal dwys. Er mai llawfeddyg yw Osian, a'i fod ar hyn o bryd yn gwneud ymchwil ar gyfer PhD, gofynnwyd iddo, ynghyd â llawfeddygon eraill, helpu yn yr uned gofal dwys (ITU), gan weithio oriau hir a blinedig eithriadol.

Mae 'nôl yn gwneud llawdriniaethau bellach, gyda llif di-dor o bobl a oedd yn osgoi dod fewn i'r ysbyty, bellach yn salach – 'delayed presentations'. Heb sôn am ddwysedd y gwaith, mae gwisgo cyfarpar PPE – mygydau sy'n effeithio ar yr anadlu, misyrnau (visors), gynau, ffedog, menig ac ati – yn sugno egni, yn enwedig wrth wneud llawdriniaethau sy'n para am oriau; mae hyn yn arwain at ddiffyg hylif, poen pen a blinder llethol. Mae nifer o'i gyd-weithwyr wedi cael COVID-19, rhai yn sâl iawn; ond, trwy drugaredd mae Osian yn cadw'n iach, ac mae ei forâl yntau a'r staff yn uchel. Maent yn cydweithio fel tîm, yn falch o dderbyn gwerthfawrogiad y cyhoedd, ac yn gobeithio y bydd gwleidyddion a'u penderfyniadau bellach yn adlewyrchu gwerthfawrogiad real o bwysigrwydd gwaith y GIG / NHS. Pan gaiff gyfle, mae Osian yn ymlacio yng nghwmni ei wraig, Erwain, sydd hefyd yn addasu ei gwaith fel athrawes – ac mae Mostyn y ci yn cael llawer gormod o faldod!

Yn ddinasyddion Cymru, Prydain a'r Byd, rydym yn cael cyfle i ailasesu ein blaenoriaethau. Wrth inni guro dwylo ar nos Iau, bydded inni sicrhau buddsoddiad real o ran staffio, amser a chyllid ar gyfer y GIG. Wrth inni boeni am effaith y cyfnod ar addysg ein plant, boed inni ailasesu'r dulliau a'r profiadau sydd eu hangen er mwyn hybu dinasyddion gwybodus, iach a goddefgar. Wrth inni fwynhau cân yr adar, a rhyfeddu at aml fachlud hudol, boed inni achub ar y cyfle i gymryd y camau angenrheidiol i warchod yr amgylchedd. Wrth inni weld rhagrith a chelwydd yn llywio rhai o'r gwleidyddion, boed inni fynnu cyfiawnder a thegwch. Ac wrth inni ymbresenoli mewn gwasanaethau Zoom, boed inni ddyheu am hanfodion Cristnogol i lywio ein bywydau.

Mae'r ardd yn edrych yn well nag erioed, ac mae Penri a finnau'n dal yn eneidiau hoff, cytûn! Ac wrth inni drio ymgyfarwyddo ag unrhyw normal newydd, cofiaf y cwpled:

> Ba enaid ŵyr ben y daith?
> Boed anwybod yn obaith.

*Llio Penri*

## Capel Seion

Ddydd Iau, 21 Mai, dathlodd Mrs Megan Lloyd, Tyncoed, ei phen-blwydd yn 101 mlwydd oed. Teimlai aelodau'r eglwys a'r ysgol Sul, ac yn wir yr holl gymdogaeth, yn falch ohoni a bod ei meddwl a'i chof mor effro a bywiog ag erioed. Llongyfarchiadau gwresog iawn oddi wrthym i gyd. Er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod ynysu, rhaid fu galw heibio a chael sgwrs â hi drwy'r ffenest agored, a hithau fel arfer fel brenhines yng nghwmni'r merched ar ei haelwyd yn ein croesawu.

Beth amser yn ôl cafwyd cais gan athro dosbarth oedolion yr ysgol Sul, John Gwynne Jones, i bob un gofnodi eu hatgofion am eu hysgolion Sul. Cafwyd ymatebion diddorol dros ben a daw cyfle nes ymlaen i sôn amdanynt. Am y tro dyma atgofion Megan Lloyd, sef aelod hynaf y dosbarth a oedd yn mynychu'n ffyddlon bob Sul tan chwe mis yn ôl:

Dechreuais ddod i'r Ysgol Sul mor gynted â dod i fyw yng Nghapel Seion wedi i mi briodi. Braf yw dweud fod bod i'r Ysgol Sul wedi bod yn rhan helaeth o'm bywyd i ar hyd y blynyddoedd maith.

Yr amser hynny Ysgol Sul am ddau o'r gloch oedd yn digwydd, gan fod pregeth yn y bore. Y chwiorydd oedd y rhan fwya, rhyw dri dyn fyddai yn dod, y blaenoriaid y pryd hynny ddim ond rhyw ddau yn bresennol. Llawer iawn o blant a rhan fwyaf yn blant i aelodau'r Capel. Y patrwm arferol oedd un o'r aelodau yn rhoi emyn o'r Detholiad i ganu, a darllen ychydig o adnodau. Cyn byddai yr ysgrifennydd yn dod â llyfrau o amgylch, dweud adnodau, ac yna canu rhyw ddwy dôn arall o'r Detholiad er mwyn eu dysgu ar gyfer y Gymanfa. Diweddwyd yr Ysgol drwy Weddi'r Arglwydd.

Pwy bynnag oedd yr Arolygwr, roedd ganddo lyfr, a phob Sul yn llanw i fewn pwy oedd wedi cymeryd rhan, a beth oedd y casgliad. Byddai casgliadau ar gyfer y Symudiad Ymosodol, Beibl Gymdeithas, Plant Bontnewydd.

Byddai trip yr Ysgol Sul bob haf, dim ond un trip y cofiaf nad oedd neb eisiau mynd gan fod y tywydd yn rhy boeth.

Dechreuais ddod i'r Ysgol Sul mor gynted a ddois i fyw yng Nghapel Seion wedi i mi briodi. Braf yw dweud fod bod i'r Ysgol Sul wedi bod yn rhan helaeth o'm bywyd i ar hyd y blynyddoedd maith.

Yr amser hynny Ysgol Sul am ddau o'r gloch oedd yn digwydd, gan fod pregeth yn y bore.

Y chwiorydd oedd y rhan fwyaf, rhyw ddau dyn fyddai yn dod, y blaenoriaid y pryd hynny oedd yn rhyw ddau yn bresennol. Llawer iawn o blant a rhan fwyaf yn blant i aelodau'r Capel.

Y patrwm arferol oedd un o'r aelodau yn rhoi emyn o'r Detholiad i ganu, a darllen ychydig o adnodau. Cyn Trn byddai yr ysgrifennydd yn dod a llyfrau o amgylch, dweud adnodau, ac yna canu rhyw ddwy don arall o'r Detholiad er mwyn ein dysgu at gyfer y Gymanfa. Diweddwyd yr Ysgol drwy Weddi'r Arglwydd.


Pwy bynnag oedd yr Arolygwr, roedd ganddo lyfr, a phob Sul yn llenwi i fewn pwy oedd wedi cyrraedd yma, a beth oedd y casgliad.

Byddai casgliadau at gyfer Cymudiad Ymosodol, Beibl Gymdeithas, Plant Bontnewydd.

Byddai trip yr Ys.Sul bob haf, dim ond un trip y cofiaf nad oedd neb eisiau mynd gan fod y tywydd yn rhy boeth.

Amser y Nadolig roedd teulu Brynseion yn gwneud te arbennig i'r plant, y Gweinidog a'r blaenoriaid yn bresennol hefyd. Ar ol y te byddai agor y blychau Cenhadol, y plant yn edrych ymlaen i weld faint oeddynt wedi ei gasglu.

Roedd dydd Gwener y Groglith yn ddiwrnod pwysig yn Seion y Gymanfa Ganu yn Siloh a Tabernacl am yn ail flwyddyn.



Amser y Nadolig roedd teulu Brynseion yn gwneud te arbennig i'r plant, y Bugail a'r blaenoriaid yn bresennol hefyd. Ar ôl y te, byddai agor y blychau cenhadol, y plant yn edrych ymlaen i weld faint oeddynt wedi ei gasglu.

Roedd dydd Gwener y Groglith yn ddiwrnod pwysig yn Seion, y Gymanfa Ganu yn Shiloh a'r Tabernacl ar yn ail flwyddyn. Byddai bws yn dod i'n casglu toc wedi un o'r gloch, yna mynd i'r Gors, lawr i Lanfarian ac weithiau Llanbadarn, llond y bws yn mynd i ganu. Roedd cantorion da o blant yn Seion, ni anghofiaf glywed merched Bwlchbach yn canu deuawdau.

Rhywbeth yn debyg roedd yr Ysgol Sul yn mynd nes bod tai newydd yn cael eu codi ym Mhantycrug. Dyna'r amser y gwelwyd John a Tegwen, Ann Jenkins Lilwen, efallai mai dyna'r amser roedd Roland, beth bynnag, dyna'r amser roedd yna ddosbarth bywiog iawn. Enw Thatcher yn dod ymysg yr atebion, a Mr D Owen wrth ei fodd.

Pryd arall cawsom aelod newydd a roddodd lawer o arweiniad i ni oedd Mrs Evans, Brynawel. Byddai yn ôl yn aml a chofio amdani yn Swyddffynnon. Un arall a ddaeth â sylwadau da oedd Maredudd ap Huw.

Da i ddweud fod yr Ysgol Sul yn mynd yn ei bri o dan lywyddiaeth Ina Tudno Williams, a diolch i'r athrawon da, am y rhai sydd yn paratoi y gwersi bob Sul, y'ch chi i'ch canmol yn fawr iawn.

*Gyferbyn: gwelir atgofion Mrs Megan Lloyd yn ei llawysgrifen gain, ynghyd â Llyfr yr Athro*

**Paid ag anghofio na chilio oddi wrth fy ngeiriau.**
**Cais ddoethineb, cais ddeall;**
**paid â'i gadael, a bydd hithau'n dy gadw;**
**câr hi, a bydd yn d'amddiffyn.**

## Rhagolwg o gyfrol newydd – *Diwinyddiaeth Paul* gan John Tudno Williams


Mae nifer o lyfrau diddorol wedi dod o'r gweisg yn ystod yr hirlwm cymdeithasol diweddar, rhai ohonyn nhw'n drwchus a thrwm na ellir eu darllen ond wrth ddesg neu ddarlithell; eraill yn hylaw ac ysgafn i'w darllen ym mha sefyllfa bynnag y mynnoch chi. Un o'r rheiny yw *Diwinyddiaeth Paul* gan y Parchedig Athro John Tudno Williams. Afraid dweud, wrth gwrs, nad oes a wnelo'i drwch na'i bwysau ddim oll â natur ei gynnwys, sy'n addo bod yn eang ei gwmpawd tra'n mynd i'r afael ag agweddau dadleuol a dadlennol o'n hysgrythurau ni.

Mae'r gyfrol yn ffrwyth astudiaeth dros chwarter canrif a dyfodd o Ddarlith Davies a draddododd yr awdur yng Nghymanfa Gyffredinol yr enwad dan y teitl 'Paul a'i Ddehonglwyr Cymreig'. Yng ngeiriau'r cyflwyniad ar gefn y gyfrol: 'Cyflwynir yma holl syniadaeth athrawiaethol yr Apostol Paul a'i gefndir meddyliol mewn un bennod ar ddeg, ynghyd â swmp y farn ysgolheigaidd ddiweddaraf ar y pwnc.'

Mae'r bennod gyntaf, Paul ac Iesu, yn plymio iddi'n ddibetrus gyda dyfyniadau gan ddiwinyddion ynghylch pwysigrwydd ac aneglurder y berthynas rhwng y ddau, ac englynion John Morris-Jones, sy'n ymddangos ar dudalen 2, yn gosod y cywair ar gyfer y cyfoeth sy'n dilyn, mi dybiaf.

> A fu ail neu hefelydd – neu goethed
>     Pregethwr y Mynydd?
>   Paul oedd burion athronydd –
>   Ond awn at Ffynnawn y Ffydd.
>
> Hyd ddaear werdd bu'n cerdded, – a rhoes wir
>     Esiampl i'w dynwared;
>   Ac athro fu 'mhob gweithred,
>   A geiriau Crist yw gwir Cred.

Gobeithio, pan ddaw diwedd yr hirlwm, y bydd cyfle i seiadu ar gynnwys y gyfrol yng nghwmni a than arweiniad yr awdur.




Yn y cyfamser ac yn damaid i aros pryd a chodi archwaeth dyma deitlau chwech o'r penodau: Paul ac Iesu, Bywyd Cynnar yr Apostol Paul a'i Gefndir Meddyliol, Troedigaeth neu Alwad?, Paul a'r Gyfraith, Dysgeidiaeth Foesol Paul, Yr Eglwys yn Paul.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Wasg Prifysgol Cymru, a'i phris yw £17.99.

*Llinos Dafis*

**20 mlynedd yn ôl ...**

**Ym mis Mehefin 2000, yr oedd Alwyn Hughes, Madog, Alan Wynne Jones a Marian B Hughes, y Garn, ymhlith y Blaenoriaid newydd a ordeiniwyd mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth yng Nghapel Gosen, Rhydyfelin (ynghyd â Dewi Hughes a'r diweddar Cledan Jones). Diolch iddynt am eu cyfraniad.**

## Clonc a Phaned

Yn ein sesiynau dros Zoom ar fore Mercher, yn ychwanegol at y defosiwn byr dan arweiniad ein Gweinidog, rydyn ni wedi bod yn rhannu cerddi a cherddoriaeth sydd wedi bod o gymorth inni yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn. Dyma ddetholiad o rai o'r cyfraniadau a gafwyd:

A hithau'n 250 mlynedd ers geni Beethoven, cyflwynodd Alan Wynne Jones ni i recordiad arbennig Daniel Barenboin o Ail Symudiad ei Sonata 'Pathétique' i'r piano (https://youtu.be/vGq3-Fi_zQY) – dehongliad synhwyrus a chysurlon yn wir. Cafwyd cyfle hefyd i werthfawrogi athrylith y gyfansoddwraig ifanc ddisglair Alma Deutscher (15 oed), sydd wedi cyfansoddi walts arbennig i godi'r galon yn y cyfnod hwn, yn seiliedig ar rai o themâu Beethoven: https://youtu.be/kR3T9OjoxSM.

Dewis poblogaidd arall oedd y gerdd 'Mae' gan Mererid Hopwood, sy'n cynnig gobaith yn yr amserau tywyll hyn. Gellir gweld cyflwyniad ohoni ar YouTube (https://www.youtube.com/watch?v=yNboFOKZaZ4).

Cyfeiriodd Delyth Davies at englyn gan Rhys Dafis a glywyd ar Radio Cymru, ac sy'n crynhoi'n effeithiol iawn deimladau llawer ohonom dros yr wythnosau diwethaf:

Mae enaid angen munud – o afael
Y clwyf, ac mae gwynfyd
Fry yn bell o fraw ein byd
Yn hedd mynydd am ennyd.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r awdur am ei ganiatâd caredig i gyhoeddi'r englyn hwn yma, ac am ychwanegu gair am gefndir y cyfansoddi:

'Y tu ol iddo fo mae dwy haen ystyr. Y cynta ydy fy hoffter o fynydda, ac yn y cyfnod rhyfedd yma, fod modd imi ddychmygu bod yn hedd y topie am ennyd, dim ond agor llygad y meddwl. Yr ail ystyr ydy geiriau'r salm "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd …" sef troi at yr Arglwydd am gysur a chynhaliaeth ar adeg mor ddu.'

*Mae dewisiadau Llinos Dafis a Heulwen Lewis yn dilyn:*

# Pelydryn

Rhedodd allan o ryw lôn gefn gul.
Yn bennoeth drwy'r gwynt a'r glaw;
Gwallt bach melyn, a llygad glas;
Balŵn fach wrth linyn yn ei llaw.

"Datod" meddai a'i phen bach yn gam,
Ac estyn y llinyn i mi;
Cwlwm go ddyrys, ond daeth yn rhydd
Ymhen rhyw ddau funud neu dri.

Un wên a gefais, fel heulwen haf,
Ac yna, i ffwrdd â hi;
Byr fydd ei chof am y peth mi wn,
Ond byth nid anghofiaf i. *T. Gwynn Jones*

Roedd hon ymhlith y cerddi y byddai fy mam yn eu hadrodd i ni pan oedden ni'n blant. Daeth yn rhan ohonof a suddo i gêl waelodion fy nghof, nes yn ddiweddar. Darllen rown i am iselder ysbryd ac fel mae'n anodd ar adegau i'r rhan fwyaf ohonon ni osgoi teimlo'n isel wyneb yn wyneb ag abswrditi bywyd. Pwylseisiai'r awdur fel y gall ambell air bach neu ystum diarwybod, neu ddiffyg gair – anwybyddu, ddolurio i'r byw pan fo gobaith yn brin.

Wrth sylweddoli fod y gwrthwyneb yn wir hefyd – gall gwên, neu ystum, neu air bach lonni'r galon ar amrantiad – cofiais am 'Pelydryn', gyda'i darlun cryno o ddigwyddiad syml ar ddiwrnod o dywydd garw.

Mae'n hysbys fod T. Gwynn Jones yn cael cyfnodau o iselder ysbryd. Mae dewis 'Pelydryn' yn deitl i'r gerdd yn hoelio'r sylw yn syth ar oleuni a thywyllwch. Yn y bôn, yr un gair yw pelydryn â paladr, sef llafn. Torrodd y digwyddiad bach yma drwy bruddglwyf tywyll y bardd fel llafn o oleuni. Nid yw pob goleuni yr un fath. Gall ambell olau wneud dim mwy na thynnu sylw, neu ddallu hyd yn oed. Mae yna olau o fath arall sy'n llewyrchu, gair sy'n gyfarwydd i ni mewn darnau o'r ysgrythur: 'Llewyrched eich goleuni ger bron dynion …' Does dim rhaid iddo fod yn olau mawr; gall pelydryn bach lewyrchu, ac fe lewyrchodd y pelydryn bach yma.

I aralleirio'r gerdd – ar ddiwrnod gwyntog, gwlyb, gofynnodd merch fach i ddyn dieithr oedd ar y pryd yn isel ei ysbryd ddatod cwlwm ar linyn ei balŵn. Anghofith e byth o'r wên roddodd hi iddo fe am wneud hynny. Dw i'n arswydo wrth feddwl sawl gwaith rydw i, drwy air neu ystum diarwybod, wedi dolurio neu beri siom i rywun. Alla i ddim ond gobeithio mod i hefyd, rywbryd, efalle, wedi peri i belydryn dreiddio tywyllwch rhywun.

## ‘Gweddi’ (Dic Jones)

Y darn barddoniaeth a ddewisais ar gyfer Paned a Chlonc oedd ‘Gweddi’ o waith Dic Jones allan o’r gyfrol *Geiriau Gorfoledd a Galar* gan D. Geraint Lewis. Caiff y llyfr ei rannu’n dair adran ar ddeg, a’r cyntaf yw: ‘Nid af heibio’r ffordd hon eto’, ond am y tro dewisais yr adran ‘Gobaith’. Hoffais y gerdd fach hon yn fawr am ei bod yn siarad â ni yn y cyfnod trist hwn y cawn ein hunain ynddo.

Mae’n dechrau drwy ofyn am gymod rhwng dyn a dyn, a beth yw gwir ystyr cymydog. Cofiwn am wanc dyn yn gyffredinol yn gorbrynu ar ddechrau teyrnasiad y gormeswr hwn. Mae pryder a gofid yn medru llethu ein gwlad a’n byd ar adeg fel yma, a’r geiriau ‘at bwy y trown, ond atat Ti’ yn eiriau cysurlon a gobeithiol, â dull y bardd o’u cyflwyno ‘ar i’r byd ddweud eu pader’. Sylweddolwn hefyd gymaint o bobl sy’n dibynnu ar fanciau bwyd heddiw, a dyma ffordd yr awdur o’i gyflwyno: ‘Dig y byd o dwg i ben – dilea / O’i deuluoedd angen’. Mae’n gorffen drwy erfyn ar Dduw i gysgodi’r anghenus dan ei adain a’r cyfan er mwyn Ei Enw Ef ei hun, Amen.

Gweddi

Arglwydd daioni’r flwyddyn – cymoda’r
Cymydog â’i elyn;
Di geidwad anghredadun
Atal Di wanc teulu dyn.

Yn nyddiau’r drin bydd Di’n dŵr – i’th bobol
A’th babell yn swcwr;
Bydd loches rhag gormeswr,
Dyro nawdd i druan ŵr.

Rho o hyd i blant pryder – dy nodded
Yn nydd eu cyfyngder;
Ac yn ei ofn, plyg, ein Nêr
Y byd i ddweud ei bader.

Dig y byd o dwg i ben – dilea
O’i deuluoedd angen,
Dros ein gwlad rho dy aden
Er mwyn dy Enw mawr, Amen.

## Cofio Marian Jenkins

Trist yw ffarwelio â chyfaill ar unrhyw adeg, mil tristach pan na fydd cyfle i rannu'r profiad gyda chyd-gydnabod. Bu farw Marian Jenkins ar Ebrill 3ydd, eleni, yn ei chartref, Eryl, Llandre. Roedd hi wedi derbyn yr wybodaeth na ellid trechu ei chancr yn nodweddiadol o ddewr ac urddasol rai wythnosau cyn hynny. Anodd, er hynny, oedd hi i ni, ei chyfeillion, gredu bod y corff heini, trwsiadus, y wên gyfeillgar, a'r meddwl ystwyth a chlir ar fin gorfod ildio.

Yn Llundain y ganwyd Marian, yn 1931. Gan fod ei thad, a hanai o Flaenau Ffestiniog, yn beiriannydd mwyngloddio yn y Gweithfeydd Aur yn Affrica, yn Kenya y bu ei chartref am wyth mlynedd cyntaf ei hoes. Pleser mawr iddi oedd rhannu atgofion am y cyfnod hwnnw a'i gallu hi pan oedd yn blentyn bach i sgwrsio yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Swahili. Mynnai mai ei phlentyndod ynghanol pobl ddieithr mewn gwlad ddieithr oedd wrth wraidd ei chyfeillgarwch rhwydd a pharod â phawb a ddôi i gysylltiad â hi, ac mai'r mordeithiau hirion rhwng y wlad honno a mamwlad ei rhieni roddodd iddi ei hoffter ysol o deithio.

Derbyniodd Marian, a Gwen a Dafydd, ei chwaer a'i brawd, eu haddysg gynnar gan Kitty Lloyd, y Gymraes a aeth gyda'r teulu i Kenya i fod yn athrawes arnyn nhw, ond ar ddechrau'r rhyfel bu raid i'r teulu ddychwelyd i Gymru. Yng Nglanceiro, neu'r Hen Bost fel y gelwid ef yn lleol, Llandre, y gwnaethon nhw eu cartref i ddechrau a symud yn nes ymlaen i Cedrwydd. Yn wyth oed felly dechreuodd Marian fynychu Ysgol Rhydypennau. Cofiai gyda gwên am fechgyn yn yr ysgol yn ei holi'n heriol, 'Os edech chi o Affrica, pam edech chi ddim yn ddu?'

O Ysgol Ardwyn aeth ymlaen i Goleg Addysg Gorfforol Dartford, yr unig Gymraes yn y coleg. Pleser iddi felly oedd gallu bwrw'r Sul gyda thylwyth ei mam, oedd yn wreiddiol o Langeitho a Threfenter ond a oedd bellach yn byw yn Llundain. Dyma lle daeth hi'n ymwybodol o'i Chymreictod, meddai hi.

Ar ôl cyfnod yn athrawes yn Ysgol Ramadeg y Merched yn Llanelli symudodd i Ardwyn, ei hen ysgol, a chael cefnogaeth y prifathro, A. D. Lewis, i ddefnyddio rhagor o Gymraeg wrth ddysgu – peth anarferol mewn Ymarfer Corff ar y pryd. Gyda'r cynnydd mewn addysg Gymraeg daeth angen am hyfforddwyr gyda sgiliau a phrofiad addas i hyfforddi athrawon. Penodwyd Marian yn ddarlithydd Addysg Gorfforol ac Addysg Iechyd yn y Coleg Normal ym Mangor. Cofiai gyda blas am y cyfarfodydd gydag Eic Davies ac eraill i fathu termau at y diben.

Yn ddiweddarach symudodd i Aberystwyth i ofalu am hyfforddi merched yn yr is-adran Addysg Gorfforol yn y Brifysgol. Yn ystod ei hamser yno daeth yn Llywydd Cenedlaethol (Prydeinig) y Women's Intervarsity Athletics Board – yr unig un o Gymru erioed i ddal y swydd. Yn yr un cyfnod bu'n rhan o'r ymgyrch i sefydlu Neuadd Pantycelyn yn neuadd Gymraeg.

Ar ôl ymddeol, symudodd yn ôl i Landre ac ymdaflu i brysurdeb o fath arall. Daeth yn aelod o'r Cyngor Cymuned gan helpu i ddatblygu'r maes chwarae i blant a'r cyrtiau tennis; bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Ceredigion, yn ymgeisydd i'r Cyngor Sir dros Blaid Cymru ddwywaith, ac yn cynnal sesiynau Cadw'n Heini yn Rhydypennau.

Yn y 1990au Marian oedd yn gyfrifol am lywio cynllun gwerthfawr aelodau Capel y Garn i anfon cyfraniadau ariannol cyson i Ysgol Gristnogol Bresbyteraidd Dungki-Ingding yn yr India, cyllid a alluogodd yr ysgol honno i gyflogi athrawes ychwanegol. Mae'r holl gofnodion wedi eu cadw'n drefnus ganddi. Hi hefyd ysgogodd yr arfer o ddarparu cwpanaid ar ól yr oedfa fore Sul yng Nghapel y Garn, a hyd yn ddiweddar iawn hi oedd yn trefnu'r rota ar ei gyfer. Roedd hi'n aelod ffyddlon o gangen Genau'r Glyn o Ferched y Wawr, ac fe fyddai'n barod iawn ei chymwynas ag unrhyw un os byddai angen. Nid gweniaith yw dweud y bydd bwlch mawr ar ei hôl.

Estynnnwn ein cydymdeimlad â'i gŵr Eddie a ofalodd amdani'n dyner a diarbed yn ystod ei gwaeledd, ac â'i phlant, Hywel a Rhiannon, a'r wyrion, ac â theuluoedd Gwen a Dafydd. Mae'r ardd flodau a greodd ac a feithrinodd gydag Eddie yn Eryl yn deyrnged addas o liwgar iddi yr adeg yma o'r flwyddyn.

*Llinos Dafis*


**Os hoffech gyfrannu rhodd er cof am Marian, naill ai tuag at Ymchwil Canser Cymru neu Hosbis yn y Cartref (HAHAV), gellir gwneud hynny drwy law Gwyn Evans o C. T. Evans, Cyfarwyddwyr Angladdau, Brongenau, Llandre, Bow Street, SY24 5BS, neu ar y We, drwy'r dudalen JustGiving: https://www.justgiving.com/fundraising/marian-eluned-jenkins**




Marian ac Eddie a'u stondin 'cist car'
er budd Ysgol Dunghki-ingding ym mis Medi 1999



Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau i'r Arglwydd Elystan-Morgan a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty yn ystod y misoedd diwethaf hyn. Braf ei weld yn mwynhau sgwrs yn yr ardd ar bnawn heulog gyda Nans a Dwysli.




## Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Marian Beech Hughes, y Garn
Is-gadeirydd: Mrs Ina Tudno Williams, Capel Seion
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth,
Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost:
gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Medi** i'r golygydd:
Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662
marian_hughes@btinternet.com